Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad Gan Y Pwyllgor Iechyd A Gwasanaethau Cymdeithasol

Mesur Seneddol Plant A Mabwysiadu

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Mesur Seneddol uchod yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2005. Cafodd y Mesur Seneddol ei anfon at y Pwyllgor ac at y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, gan gyfarfod llawn y Cynulliad ar 21 Mehefin. Fe'i hystyriwyd yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth sylfaenol y cytunwyd arno gan y Pwyllgor ar 11 Mehefin 2003, lle bydd Aelodau'n rhoi gwybod ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau y dymunant eu cynnig i'r Mesur Seneddol.

Cynigiodd Plaid Cymru y dylai nifer o welliannau a noddwyd gan nifer o gyfranogwyr, gan gynnwys yr NSPCC a Barnardo's, gael eu hystyried gan y Pwyllgor.

Roedd y gwelliannau'n ymwneud â Rhan 1 o'r Mesur Seneddol, a oedd y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly ystyriwyd bod y gwelliannau allan o drefn.

Ni chyflwynwyd unrhyw welliannau na chwestiynau eraill.

David Melding AC
Cadeirydd